




GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Y Weithrediaeth  
Executive

Y gofal iawn, yn y lle iawn, y tro cyntaf

## Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng

Strategaeth Gofal mewn Argyfwng ar yr un Diwrnod (SDEC): "UNDIWRNOD"



Fframwaith ar gyfer datblygu a darparu Gofal mewn Argyfwng ar yr Un Diwrnod (SDEC)

## Cynnwys

Crynodeb Gweithredol.....	3
Y Cefndir .....	4
Strategaeth SDEC: Blaenoriaethau'r gwasanaeth.....	6
1. Deall y Gweithlu.....	7
2. Peidio â rhoi Gwelyau mewn SDEC .....	9
3. Mynediad Uniongyrchol ar gael drwy'r System Gyfan .....	10
4. Adnabod, Diffinio ac Adrodd (Monitro a Gwerthuso).....	13
5. Cyfres Ddata Gofal mewn Argyfwng Cymru (WECDS) .....	17
6. Y Seilwaith Ystadau Cywir .....	19
7. Meithrin Cyfathrebu Effeithiol.....	20
8. Optimeiddio Diwylliant o Arweiniad Gweladwy.....	21
9. Diagnosteg a Phrofi .....	23
Y Camau Nesaf – Y Gwasanaeth Bregusrwydd Acíwt .....	24
ATODIAD 1 .....	29
1. Safonau SDEC Interim .....	29
2. Mesurau Cyfanredol SDEC Interim.....	29
3. Safonau SDEC Arfaethedig .....	30
4. Metrigau a Argymhellir gan SDEC ar ôl Gweithrediad WECDS.....	30
ATODIAD 2 .....	33
1. Erfyn Hunanasesu: Darpariaeth Gyfredol.....	33
2. Erfyn Hunanasesiad: Ymdrechu i Gyflawni.....	36

## Crynodeb Gweithredol

Nod Strategaeth SDEC GIG Cymru yw gwella Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng drwy roi gwasanaethau Gofal mewn Argyfwng ar yr un Diwrnod (SDEC) ar waith ledled Cymru. Mae'r strategaeth hon, a elwir "UNDIWRNOD", yn alinio â strategaeth SAMEDAY GIG Lloegr ac mae'n canolbwyntio ar ddarparu asesiad, diagnosis a thriniaeth cyflym i gleifion, gan ganiatáu iddynt gael eu rhyddhau o'r ysbyty ar yr un diwrnod pan fo hynny'n briodol yn glinigol.

Mae'r strategaeth yn pwysleisio gostwng yr amrywiaeth mewn gofal, sicrhau cysondeb yn yr atgyfeiriadau uniongyrchol i ofal arbenigol, a gwella'r llif cleifion. Mae'n tynnu sylw at bwysigrwydd sicrhau bod parafeddygon yn gallu atgyfeirio cleifion yn uniongyrchol i SDEC drwy un pwynt mynediad. Ystyrir bod y gwasanaethau SDEC yn hanfodol ar gyfer darpariaeth gofal aciwt yn y dyfodol, yn enwedig mewn cymdeithas sy'n heneiddio a lle mae'r adnoddau gofal iechyd yn gyfyngedig.

Mae'r ddogfen yn amlinellu naw blaenoriaeth gwasanaeth ar gyfer SDEC, a'u nod yw darparu'r gofal cywir yn y lle cywir y tro cyntaf. Mae hefyd yn canolbwyntio ar yr angen am gael gweithlu amlbroffesiwn a staffio priodol, a phwysigrwydd cael aelod clinigol lefel uwch sy'n gwneud penderfyniadau ar ddyletswydd yn ystod oriau agor SDEC.

Mae'r strategaeth hefyd yn mynd i'r afael â'r mater o beidio rhoi gwelyau mewn ardaloedd SDEC, gan bwysleisio na ddylid ailwrpasu'r manau hyn yn ystod cyfnodau o bwysau er mwyn cadw llif y cleifion yn symud ac i sicrhau bod cleifion yn cael eu rhyddhau ar yr un diwrnod.

Y nod cyffredinol yw darparu gofal iechyd effeithiol a chynaliadwy o ansawdd uchel mor agos i'r cartref ag y bo modd, gwella mynediad ac integreiddiad i'r gwasanaeth gan hefyd ymdrin ag anghydraddoldebau a blaenoriaethu modelau o ofal sy'n cynnig y gwerth gorau i bobl.

Rydym yn awyddus i barhau i ddatblygu a gwella'r ddogfen hon fel bod arweinwyr systemau, clinigwyr a staff gweithredol yn gallu diwallu anghenion cleifion ac anghenion y cyhoedd yn y ffordd orau. Os oes gennych unrhyw adborth neu os oes angen rhagor o wybodaeth neu gymorth arnoch, cysylltwch â Swyddfa Rheoli Prosiect y Chwe Nod: [abb.sixgoalsuec@wales.nhs.uk](mailto:abb.sixgoalsuec@wales.nhs.uk)

## Y Cefndir

Cafodd y Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng eu cyd-ddylunio gan arweinwyr clinigol a phroffesiynol ac maen nhw'n rhychwantu'r llwybr Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng sy'n adlewyrchu'r blaenoriaethau yn y [Rhaglen Lywodraethu 2021 i 2026: Datganiad Llesiant | LLYW.CYMRU](#) i ddarparu gofal iechyd effeithiol a chynaliadwy o ansawdd uchel mor agos i'r cartref ag y bo modd, ac i wella mynediad ac integreiddiad i'r gwasanaeth. Maen nhw'n canolbwyntio ar gryfhau'r dulliau o ddangos y ffordd, opsiynau sy'n ddiogel yn glinigol i'w defnyddio yn lle cadw cleifion i mewn, rhoi ymateb gofal cyflym mewn argyfwng, defnyddio arferion rhyddhau da ac atal sefyllfa lle mae'n rhaid i bobl ddod yn ôl eto i'r ysbyty. Ond drwy gyfrwng y dull chwe nod, y bwriad yw ymdrin ag anghydraddoldeb a blaenoriaethau modelau gofal newydd neu gyfredol y profwyd eu bod yn gweithio i bob poblogaeth, gan sicrhau eu bod yn cynnig y gwerth mwyaf i bobl, ar sail yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw.



Fel y dywedwyd yn y [Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng: llawlyfr polisi ar gyfer 2021 to 2026 | LLYW.CYMRU](#) yr uchelgais yw rhoi gwasanaethau SDEC ar waith fel eu bod yn cefnogi 100% o'r Adrannau Argyfwng math 1, gan ganiatáu i bobl sy'n cyflwyno â chyflyrau penodol gael asesiad, diagnosis a thriniaeth cyflym, a chael eu rhyddhau i fynd adref ar yr un diwrnod, lle bo'n briodol yn glinigol, ddeuddeg awr y dydd a saith diwrnod yr wythnos.

Uchelgais [Cynllun Tymor Hir y GIG](#) GIG Lloegr yw bod pob Ysbyty sydd ag Adran Argyfwng 24 awr (math 1) yn: Darparu gwasanaethau SDEC o leiaf ddeuddeg awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos. I gefnogi'r uchelgais hwn yn Chwefror 2024, cyhoeddodd GIG Lloegr eu [strategaeth SAMEDAY](#) – fframwaith i ddatblygu a darparu gofal mewn argyfwng o fewn yr un diwrnod (SDEC).

Yng Nghymru, rydym wedi mabwysiadu egwyddorion strategaeth SAMEDAY GIG Lloegr ac, i'w halinio â darpariaeth Cymru, rydym wedi eu galw'n strategaeth SDEC "UNDIWRNOD".

Mae angen i ni ostwng yr amrywiaeth mewn gofal a sicrhau mwy o gysondeb yn yr atgyfeiriadau uniongyrchol i ofal arbenigol, er enghraifft ar gyfer pobl sy'n byw â bregusrwydd, er mwyn ymateb yn well i anghenion cleifion agored i niwed sydd mewn mwy o berygl o gael eu derbyn i'r ysbyty.

## Strategaeth SDEC: Crynodeb

Dylai'r gwasanaeth SCED hefyd greu cysylltiadau ar draws y Gofal Brys a'r Gofal mewn Argyfwng er mwyn gwella'r llif cleifion. Er enghraifft, dylai parafeddygon allu atgyfeirio cleifion yn uniongyrchol i SDEC, lle bo'n briodol, a hynny'n ddelfrydol drwy un pwynt mynediad (SPOA) i ddarparu un llwybr syml ar gyfer atgyfeirio i'r ysbyty. Ystyrir bod gwasanaethau SDEC yn hanfodol i ddarpariaeth gofal aciwt yn y dyfodol, mewn cymdeithas sy'n heneiddio lle mae'r adnoddau gofal iechyd yn gyfyngedig, a chânt eu hardystio gan y Coleg Brenhinol Meddygaeth Argyfwng a'r Gymdeithas Meddygaeth Acíwt.

Gofal mewn Argyfwng ar yr un Diwrnod yw darparu gofal i glaf gan glinigwyr o fewn Gwasanaeth Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng. Darperir Gofal mewn Argyfwng ar yr un Diwrnod o fewn 24 awr i Stamp Amser yr Asesiad Cychwynnol mewn Gofal Brys a'r Gofal mewn Argyfwng, yn dilyn yr asesiad clinigol ffurfiol cyntaf (naill ai ar-lein neu wyneb yn wyneb) ac wedi i'r atgyfeiriad ddigwydd.

Nod Gofal mewn Argyfwng ar yr un Diwrnod yw bod yn opsiwn amgen yn lle Cyfnod o Ofal Lle Derbynnir y Claf i'r Ysbyty.

effeithiol gan ddefnyddio yr un dull un diwrnod. Mae hyn yn gofyn sicrhau bod patrymau gweithio clinigwyr lefel uwch yn cefnogi adolygiad clinigol cynnar, gwneud penderfyniadau, triniaeth a mynediad cyflym i wasanaethau diagnostig, a hynny'n cynnwys profion ar y pwynt gofal. Mae prosesau clir o'r atgyfeiriad i'r cyrhaeddiad hefyd yn cefnogi gwneud penderfyniadau cynnar a manteisio i'r eithaf ar y cyfle i gwblhau gofal y claf o fewn yr un diwrnod.

Mae GIG Cymru'n disgrifio Gofal mewn Argyfwng ar yr Un Diwrnod fel darparu gofal aciwt ar yr un diwrnod i gleifion a fyddai wedi cael eu derbyn i'r ysbyty fel arall.

O dan y model gofal hwn, mae modd i gleifion sy'n cyflwyno yn yr ysbyty gyda chyflyrau perthnasol gael eu hasesu a chael diagnosis a thriniaeth yn gyflym (mewn lle wedi'i ddynodi) heb gael eu derbyn i'r ysbyty, ac os yw'n ddiogel yn glinigol iddynt wneud hynny, byddent yn mynd adref ar yr un diwrnod ag y darperir eu gofal.

Diben y strategaeth SDEC "UNDIWRNOD" gyda'r 9 blaenoriaeth gwasanaeth yw cefnogi darpariaeth SDEC ledled Cymru. SDEC yw un o'r dulliau niferus sydd gan y GIG o ddarparu'r gofal cywir i gleifion, yn y lle cywir, y tro cyntaf a hynny mewn ffordd safonol a chyson fel nad yw cleifion yn cael eu derbyn i mewn i'r ysbyty os nad yw hynny'n briodol yn glinigol.

Mae rhywfaint o'r twf a welwyd yn y derbyniadau heb eu cynllunio i'r ysbyty dros y degawd diwethaf wedi digwydd gyda chleifion oedd yn treulio 1 neu 2 o ddiwrnodau yn yr ysbyty; gallai nifer ohonynt gael eu rheoli'n ddiogel ac yn

Nid yw SDEC yn wasanaeth cleifion allanol am fod strategaethau trin, technoleg ac ymchwiliadau newydd yn galluogi i SDEC ddarparu yr un buddion â gofal cleifion mewnol, gan hefyd ostwng y risg o haint nosocomiaidd a datgyflyru, gostwng oedi yn y llwybr i gleifion mewn argyfwng a gostwng y pwysau ar y system yn gyffredinol. Mae hefyd yn gwella boddhad y claf a'r staff. Mae arweinyddiaeth y system yn hanfodol i'r effaith y gall SDEC ei chael ar ostwng y nifer o welyau a ddefnyddir gan dderbyniadau argyfwng dianghenraid, er mwyn cyflymu derbyniad cleifion sydd angen aros yn yr ysbyty. Bydd cynllunio SDEC ar y cyd ar draws lleoliadau gofal iechyd yn gwella'r llif cleifion rhwng lleoliadau gofal eilaidd, cymuned a sylfaenol ar ôl cwblhau'r cynlluniau triniaeth y cytunwyd arnynt a bydd yn golygu bod modd rhyddhau cleifion i'w lle byw arferol, i leoliad yn y gymuned neu i ward rhithwir i dderbyn gofal parhaus lle bo'n briodol yn glinigol, er mwyn iddynt dderbyn y gofal y maen nhw ei angen yn ddiogel ac yn gyfleus heb oedi.

## Strategaeth SDEC: Blaenoriaethau'r Gwasanaeth

Mae gan y strategaeth SDEC "UNDIWRNOD" 9 blaenoriaeth:

- U** Deall angen y Gweithlu, a'i wneud yn ddiogel a chynaliadwy
- N** Dim gwelyau yn SDEC
- D** Mynediad uniongyrchol ar gael drwy'r system gyfan
- I** Nodi, Diffinio ac Adrodd (Monitro a Gwerthuso) cleifion sy'n addas ar gyfer Gofal ar yr Un Diwrnod
- W** Gweithredu Cyfres Ddata Gofal mewn Argyfwng Cymru (WECDS)
- R** Seilwaith Ystadau Cywir
- N** Meithrin cyfathrebu effeithiol
- O** Optimeiddio diwylliant o arweinyddiaeth weladwy
- D** Diagnosteg a gallu i Brofi er mwyn cefnogi mynediad cyflym i wasanaethau yr un diwrnod

Mae nod pob blaenoriaeth wedi ei nodi isod, ynghyd ag argymhellion ynglŷn â sut y bydd modd i bob nod gael ei wella, ei drawsnewid a'i integreiddio, ac amlinellir yr ymrwymiad i ddarparwyr ochr yn ochr â'r argymhellion i ddarparwyr a systemau gofal iechyd.

## 1. Deall y Gweithlu

### Yr adnoddau staffio

Mae gwaith yn digwydd ar hyn o bryd gyda Gweithrediaeth GIG Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) i ddatblygu fframwaith gweithlu ymhellach sy'n alinio â'r strategaeth.

### Rolau'r staff

Mae angen gweithlu amlbroffesiwn i ddarparu SDEC a dylai pob gwasanaeth SDEC benderfynu ar ei ofynion lleol er mwyn ateb galw'r cleifion.

Mae'n rhaid i staff gael eu hyfforddi yn y tasgau sydd eu hangen i ddarparu SDEC, a bod yn gymwys i wneud y tasgau hyn, a chael y cyfle i ddysgu sgiliau a galluoedd pellach i ehangu rolau eu swyddi presennol ac i ddysgu a datblygu.

I gael gwasanaeth SDEC effeithiol ac optimaidd mae angen cael cymorth sydd ar gael yn rhwydd gan staff clinigol a staff nad ydynt yn glinigol a'r gallu i gyrraedd pob arbenigedd yn ystod oriau agored SDEC.

Yr opsiwn gorau'n aml iawn yw bod SDEC yn cael ei ddarparu gan weithlu amlbroffesiwn a fyddai'n cynnwys y rolau a ganlyn:

- Meddygon ymgynghorol, meddygon teulu gyda rolau estynedig (GPwER), Meddygon Arbenigol a Meddygon Arbenigol Cysylltiol, a Meddygon sy'n hyfforddi (argyfwng, cyffredinol, aciwt ac arbenigwyr mewn organau unigol)
- Nyrsys (cofrestrdig ac heb fod yn gofrestrdig), Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd (yn cynnwys meddygon ymgynghorol), Ymarferwyr Clinigol Uwch a Chymdeithion Meddygol
- Fferyllwyr
- Dadansoddwyr Busnes TG
- Staff Gweinyddol, Clerigol, Porthorion a Staff Cynnal a Chadw
- Rheolwyr Gwasanaeth a Staff Gweithredol

Nid yw'r rhestr hon yn derfynol a bydd yn cael ei diweddarw wrth i'r gwasanaeth wella'n barhaus.

Bydd mynediad at staff eraill, fel staff labordy a radiograffwyr yn bwysig hefyd, a dylid sefydlu cysylltiadau â staff gofal cymdeithasol i hyrwyddo cymorth ychwanegol i gleifion sy'n cael eu rhyddhau i fynd adref fel y bo'r gofyn.

## **Staff clinigol uwch sy'n gwneud penderfyniadau**

Un gofyniad allweddol yw cael aelod o staff clinigol uwch ar ddyletswydd yn SDEC yn ystod yr oriau agor, sydd wedi'i ddynodi i wneud penderfyniadau. Dylai fod ar gael mor gynnar ag y bo modd yn nhaith y claf er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael eu cyfeirio i'r lle cywir ar yr amser cywir.

Mae arweinyddiaeth glinigol yn golygu mwy na darparu gofal o safon da i gleifion. Mae arweinwyr clinigol yn nodi ymhle y mae angen gwelliant ac yn galluogi newid. Mae'r term yn berthnasol felly ar draws pob lefel o'r GIG yng Nghymru. Mae cymryd cyfrifoldeb am arweinyddiaeth glinigol yn gallu gwella'r canlyniadau i gleifion, osgoi defnyddio adnoddau'n wastraffus a gwella'r amgylchedd gweithio.

Dylai'r rhai sy'n gwneud y penderfyniadau ddod o'r holl grwpiau proffesiynol mewn gofal iechyd. Rhaid iddynt feddu ar:

- Sgiliau asesu clinigol rhagorol
- Sgiliau gwneud penderfyniadau cyflym gan ddefnyddio gwybodaeth glinigol gyfyngedig
- Sgiliau rhyngpersonol rhagorol i herio penderfyniadau am dderbyn ac atgyfeirio
- Gwybodaeth fanwl am alluoedd ac adnoddau gwasanaeth SDEC
- Gwybodaeth am y llwybrau eraill at dderbyniad a sut i fynd arnyn nhw, gyda chefnogaeth un pwynt mynediad/cyfeiriadur gwasanaethau yn ddelfrydol
- Yr awdurdod i ofyn am ddiagnosteg
- Yr awdurdod i weithredu ar eu beirniadaeth
- Y gallu i reoli taith gyfan y claf yn annibynnol, yn cynnwys rhyddhau

## **Dyrannu staff**

Dylid darparu staffio priodol i weithredu gwasanaethau SDEC ar sail gynaliadwy am o leiaf 12 awr y diwrnod, 5 diwrnod yr wythnos, a gyda Gwasanaethau Bregusrwydd Acíwt yn gweithredu am o leiaf 12 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos. Y nod yw gwasanaethu am 7 diwrnod o waith fel safon aur.

Dylai'r gwasanaethau SDEC adolygu lefelau gweithgarwch yn ystod yr oriau agor i fesur y galw ar y gwasanaeth, yn cynnwys yr adegau pan mae ar ei uchaf a'i isaf. Dylid adolygu hyn ar draws 24 awr yn hytrach nag yn ystod oriau agor y gwasanaeth yn unig, er mwyn darganfod ymhle y mae'r amseroedd galw uchaf. Dylai'r modelau staffio gyfateb â'r amrywiadau hyn, a allai olygu symud i ffwrdd oddi wrth y patrymau shifft traddodiadol i ateb y ddarpariaeth gwasanaeth 7 diwrnod. Mae'n rhaid i unrhyw newidiadau i'r patrymau gwaith ystyried y cydbwysedd bywyd-gwaith a chytundebau contract i staff.

Dylid aseinio staff i SDEC i sicrhau bod cynnig gwasanaeth cyson yn cael ei ddarparu a bod y gofal yn barhaus. Mae hyn yn aml yn haws ei wneud i staff Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd na staff meddygol a fydd yn aml yn rhan o rota ar alwad. Bydd angen i feddygon sydd ag arbenigedd allu estyn i mewn i SDEC, a dylai Byrddau Iechyd/Ymddiriedolaeth gael safonau rhyngbroffesiynol cadarn i gefnogi hyn. Fodd bynnag, ar gyfer arbenigeddau fel Meddygaeth Acíwt a Llawfeddygaeth Gyffredinol, mae gweithlu dynodedig wedi ei seilio yng ngwasanaeth yr uned SDEC, yn fuddiol i reoli galw nad yw wedi ei gynllunio.

## **2. Peidio â rhoi gwelyau mewn SDEC**

Mae rhoi gwelyau mewn ardaloedd SDEC yn parhau i fod yn broblem mewn llawer o safleoedd ledled Cymru a gwelir y galw'n cyrraedd capasiti ar draws yr ôl troed Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng cyfan. Yr her yw canfod sut i roi stop ar hyn. I wneud hynny rhaid cael cefnogaeth yr arweinwyr uwch lleol a'u cytundeb na ddylid rhoi gwelyau mewn ardaloedd SDEC. Gwerthfawrogir bod rhoi gwelyau mewn ardaloedd SDEC yn achosi pwysau ar draws system yr ysbyty ond byddem yn gofyn bod effaith gwneud hynny'n cael ei fesur. Lle mae ardaloedd SDEC yn cynnwys gwelyau ac felly'n methu gweithredu yn y ffordd ddisgwyliedig, mae cleifion newydd sy'n mynd i mewn i'r gwasanaethau Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng yn methu mynd wedyn i mewn i SDEC.

Ni ddylid rhoi gwelyau mewn gwasanaethau SDEC ac ni ddylent gael eu hailbwrpasu yn ystod cyfnodau o bwysau; mae'r gwasanaethau hyn yn arbennig o hanfodol i lif y cleifion pan mae gwelyau cleifion mewnol yn gyfyngedig. Mewn cyfnodau o bwysau, ystyriwch ymestyn oriau agor y gwasanaethau SDEC i gefnogi'r llif cleifion ac i'w rhyddhau nhw ar yr un diwrnod.

## Beth allai gefnogi peidio â rhoi gwelyau mewn SDEC?

- Cael cefnogaeth gan Arweinwyr Gweithredol ac Uwch a chytundeb nad yw'r lle SDEC i gael gwelyau hyd yn oed pan mae'r bwrdd iechyd/ymdiriedolaeth yn uwchgyfeirio.
- Diwylliant lle mae'r sefydliad yn cefnogi peidio â rhoi gwelyau mewn SDEC a chefnogi'r dull hwn, wedi ei hyrwyddo'n gyson a'i godi mewn cyfarfodydd gweithredol/llif
- Nid oes gan yr uned SDEC y gallu ffisegol i gael gwelyau o fewn ei ôl troed.
- Nid yw SDEC wedi ei gynnwys yng nghynlluniau uwchgyfeirio'r bwrdd iechyd/ymdiriedolaeth, felly nid oes modd ei uwchgyfeirio iddo yn y dydd neu dros nos. Bydd angen i hyn dderbyn cefnogaeth gan y polisi Uwchgyfeirio Cenedlaethol sydd i gael ei lansio yn 2024.
- Cael ffocws ar sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn y lle cywir, gan y tîm cywir, ar yr adeg gywir, ac yn gyson, fel bod cleifion yn derbyn gofal gan yr arbenigedd cywir yn y lle cywir bob amser. Mae rhoi gwelyau yn yr SDEC yn dileu'r cyfle hwn i gleifion.
- Staffio'r SDEC ar gyfer yr oriau agor yn unig, fel nad oes staff ar gael yn arferol os bydd gwelyau yno dros nos.
- Gosod her ar sail yr egwyddor danategol Coch i Wyrdd (Nod 5), sef y dylai pawb gael 'Diwrnod Gwyrdd' gyda gwerth ychwanegol ac 'na ddylai unrhyw glaf sy'n mynychu fel claf aciwt dreulio noson y gellir ei hosgoi yn yr ysbyty'.

### 3. Mynediad uniongyrchol ar gael drwy'r system gyfan

Cyn Ebrill 2022 yng Nghymru roedd y mynediad uniongyrchol at wasanaethau SDEC yn amrywio o un lle i'r llall. I safoni'r dull yn genedlaethol, cyhoeddwyd y polisi i Gymru gyfan o atgyfeiriad uniongyrchol gan barafeddyg i ofal mewn argyfwng o fewn yr un diwrnod, er mwyn cefnogi'r Byrddau Iechyd ac Ymdiriedolaeth Prifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru (WAST) i weithredu atgyfeiriadau uniongyrchol i SDEC. [Atgyfeirio uniongyrchol gan barafeddygon at ofal mewn argyfwng ar yr un diwrnod: polisi Cymru gyfan \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#). Cafodd hyn ei alinio â'r cyhoeddiad gan GIG Lloegr o fis Tachwedd 2021 [National guidance for ambulance clinician referral to SDEC \(NHSE\)](#).

Nid nod y polisi oedd gweld mwy o gleifion yn mynd drwy unedau SDEC, y nod oedd y byddai cleifion yn cael eu rheoli mewn uned SDEC o'u cyrhaeddiad yn yr ysbyty yn hytrach na'u bod yn mynd drwy wasanaeth adran argyfwng dim ond i gael eu hatgyfeirio i'r SDEC yn hwyrach ymlaen.

Wrth i SDEC ddod yn fwy sefydledig, daeth yn amserol i adolygu a diweddarau'r polisi Atgyfeirio Parafeddygol Uniongyrchol cyfredol ac adolygu ffrydiau atgyfeirio uniongyrchol i sicrhau bod pobl yn derbyn y sgil cywir, ar yr adeg gywir, yn y lle cywir. O ganlyniad i hynny, os byddai angen SDEC ar rywun, y rheswm am hynny fyddai mai dyma'r ymateb gofal mwyaf priodol ar gyfer anghenion yr unigolyn hwnnw.

## Ymgysylltiad y Gweithlu

I gydnabod y cyfraniad gwerthfawr y gall cydweithwyr clinigol ar draws gofal iechyd yng Nghymru ei wneud i hysbysu adolygiad, trefnwyd 3 gweithdy ledled Cymru i ddod â gweithlu clinigol SDEC, parafeddygon a rhanddeiliaid/clinigwyr atgyfeirio perthnasol at ei gilydd. Nod y gweithdai oedd tynnu sylw at heriau cyfredol, cytuno ar faen prawf derbyn a nodi'r 3 maes lle mae angen y newid mwyaf er mwyn cael llwybrau atgyfeirio uniongyrchol di-dor i mewn i wasanaethau SDEC ledled Cymru.

Yn rhan o'r adolygiad cydweithredol, ystyriwyd 3 chwestiwn allweddol gan bawb oedd yno:

1. Pam nad yw'r llwybr cyfredol yn gweithio?
2. Sut ydyn ni'n sicrhau nad yw SDEC yn dod yn ail Adran Argyfwng?
3. Beth yw'r 3 maes lle mae angen y newid mwyaf er mwyn gwella'r llwybrau uniongyrchol i gleifion i mewn i SDEC?

Dyma oedd y 3 maes a gafodd y flaenoriaeth uchaf ac y nodwyd bod angen gweithredu arnynt:

Blaenoriaeth	Y Cam Gweithredu Gofynnol
1	<p>Creu un pwynt mynediad. Yn arwain at drafodaeth glinigol derfynol a chyfeirio arbenigol clinigol at y gwasanaeth priodol:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Adran Argyfwng</li><li>• SDEC (&lt;12 awr, yn cynnwys Bregusrwydd)</li><li>• Uned Clinigol Acíwt (&lt;72 awr)</li><li>• Ward Arbenigedd</li></ul> <p><b>Y CLAF CYWIR, Y LLE CYWIR, Y TRO CYNTAF</b></p>
2	<p>Stopio rhoi gwelyau mewn SDEC. Defnyddio'r fframwaith llif gorau yn yr ysbyty i gefnogi'r llif cleifion mewnol</p>
3	<p>Gwelliannau ac integreiddiad digidol er mwyn galluogi i daith claf gael ei holrhain yn llawn</p> <p>Gweithredu Cyfres Ddata Gofal mewn Argyfwng Cymru (WECDS) gyflawn mewn camau gynted ag y bo ar gael.</p>

Yn rhan o'r Chwe Nod Cenedlaethol ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng 2021-2026, roedd blaenoriaethau Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn nodi rhoi gwasanaethau SDEC ar waith ar draws yr holl ysbytai yng Nghymru, gyda'r nod o ddarparu opsiynau amgen sy'n ddiogel yn glinigol yn lle derbyniad i'r Ysbyty, fel y maent wedi eu crynhoi isod:

Dylai pob darparwydd ar draws y system gofal iechyd, yn cynnwys GIG 111, 999, gofal sylfaenol, gofal cymunedol a gwasanaethau iechyd meddwl, gael mynediad at wasanaethau yr un diwrnod.

Dylid adnabod cleifion sy'n addas ar gyfer model gofal SDEC drwy ofyn:

- A oes llwybr amgen, heb dderbyniad i'r ysbyty a allai ymdrin â'r claf mewn ffordd fwy priodol?
- A fyddai'r claf hwn yn cael ei dderbyn i wely ysbyty fel arall?
- A yw'r claf yn ddigon sefydlog yn glinigol i gael ei drin mewn SDEC?

## **Atgyfeiriad uniongyrchol**

Dylai atgyfeiriad uniongyrchol i SDEC fod ar gael ar draws y system gyfan ac ar draws amrediad o bobl broffesiynol mewn gofal iechyd i alluogi adnabod cleifion priodol yn gynnar a helpu i ostwng pwyntiau cyffwrdd clinigol, brysbennu dianghenraid, trosglwyddo gofal a rhoi hanes y claf nifer o weithiau, gorlenwi'r adran argyfwng a theithiau cludo mewn ambiwlans y gellir eu hosgoi.

Bydd datblygu llwybrau mynediad uniongyrchol yn safoni llwybrau lle mae niferoedd uchel er mwyn gostwng amrywiaeth a chefnogi derbyniad cleifion i SDEC/Gwasanaethau Bregusrwydd Acíwt.

Lle bo'n briodol, dylai'r gwasanaeth ambiwlans allu cludo cleifion yn uniongyrchol i'r gwasanaethau SDEC, gan ostwng amseroedd trosglwyddo a helpu i ddiogelu adnoddau ar gyfer y cleifion hynny sydd ag anaf neu salwch sy'n cyfyngu ar fywyd neu sy'n bygwth bywyd.

## **Cyfeiriadur o Wasanaethau**

Gwnaethpwyd adolygiad cenedlaethol o'r Cyfeirlyfr o Wasanaethau ac roedd y canlyniadau'n argymhell Cyfeirlyfr o Wasanaethau i Gymru. Mae'r Rhaglen Chwe Nod yn gweithio gydag Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r 3ydd sector i asesu'r cyfle i sefydlu Cyfeiriadur o Wasanaethau wedi'i integreiddio'n

genedlaethol, yn cynnwys yr holl wasanaethau partner. Ceisiwyd mandad Cyfeiriadur o Wasanaethau cenedlaethol drwy gyfrwng Llywodraeth Cymru a bydd hwn yn tywys y dull ar y cyd o gyflawni'r uchelgais hwn.

Dylid cael proffil gwasanaethau SDEC yn y Cyfeiriadur o Wasanaethau. Byddai gwasanaethau GIG 111 a 999, yn ogystal â chlinigwyr gofal sylfaenol a chymunedol yn gallu defnyddio'r cyfeiriadur hwn, yn ogystal â'u Canfyddwr Gwasanaethau mewnol.

Bydd rhai darparwyr yn defnyddio cyfryngau eraill i broffilio eu gwasanaethau, ond dylai'r dull o broffilio gwasanaethau SDEC gael ei safoni ar draws ôl troed rhanbarthol pob Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth, yn cynnwys yr amseroedd agor (pan dderbynnir atgyfeiriadau), llwybrau atgyfeirio, a rhifau cysylltu deialu uniongyrchol. Dylai gwybodaeth atgyfeirio hefyd gynnwys amseroedd gorffen atgyfeirio priodol er mwyn osgoi atgyfeirio claf ar ôl i'r gwasanaeth gau.

#### **4. Adnabod, Diffinio ac Adrodd (Monitro a Gwerthuso)**

##### **Opsiynau amgen yn lle derbyniad i'r ysbyty**

Yr hyn sy'n hollbwysig wrth benderfynu a yw claf yn addas ar gyfer cael SDEC yw eu diogelwch: ai derbyniad i'r ysbyty neu amgylchedd triniaeth yr un diwrnod fyddai fwyaf diogel iddyn nhw? Yn rhan o'r gwaith i sicrhau diogelwch claf rhaid herio'r dybiaeth mai derbyniad i'r ysbyty yw'r amgylchedd mwyaf priodol i'r claf. Os nad oes angen i'r claf dderbyn gofal 'yn yr ysbyty', dylai'r person lefel uwch sy'n gwneud y penderfyniadau ystyried lleoliad clinigol amgen.

Ni ddylai cleifion sydd ag anghenion cymdeithasol a/neu weithredol cymhleth, yn cynnwys iechyd meddwl, dementia a chleifion diwedd bywyd gael eu heithrio o SDEC oherwydd mae'n bosibl y gallan nhw gael gwasanaeth da iawn mewn amgylchedd yr un diwrnod sy'n osgoi derbyniad i arhosiad hir yn yr ysbyty a datgyflyru, yn ogystal ag osgoi amharu ar unrhyw becynnau gofal wedi eu seilio yn y gymuned sydd ganddynt. Mae defnyddio SDEC yn hytrach na derbyniad i'r ysbyty'n caniatáu i ofal sydd wedi'i seilio yn y gymuned barhau heb amhariad pan mae angen i'r claf gael cyfnod o asesiad ac ymyriad argyfwng mewn gofal eilaidd. Mae cyfle yma i ddefnyddio hyblygrwydd SDEC i reoli pobl hŷn sy'n byw gyda bregusrwydd mewn ffordd sydd wedi ei gynllunio, sy'n bersonol ac sy'n llai trallodus i'r claf.

## Dethol cleifion

Mae detholiad cleifion ar gyfer SDEC yn gweithio orau pan mae clinigwyr uwch a'r clinigydd sy'n atgyfeirio'n trafod cyflwyniad clinigol y claf, wedi'i gefnogi gan NEWS2 a hanes clinigol. I gleifion hŷn sy'n byw gyda bregusrwydd, dylid defnyddio dull asesiad triphlyg o Sgôr Bregusrwydd Clinigol ar gyfer pobl 65+ oed, 4AT – erfyn sgorio deliriwm a NEWS2 (sydd wedi'i seilio ar arweiniad clinigol o [ganllawiau GIG Lloegr ar gyfer asesiad cychwynnol yr adran argyfwng](#) a [Chymdeithas Henoed Prydain \(Y Llyfr Arian\)](#)). Un rhan yn unig yw'r gwasanaethau SDEC o'r system Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng, ac mae'n bwysig bod cleifion yn cael mynediad i'r gwasanaeth sy'n fwyaf priodol i'w hanghenion.

Dylai detholiad y claf ar gyfer SDEC gael ei seilio ar hyn:

- SDEC yw'r lle gorau i ateb anghenion clinigol y claf.
- Mae staffio a chyfleusterau SDEC yn briodol i ddiwallu anghenion gweithredol y claf a chynnal eu preifatrwydd a'u hurddas; yn cynnwys cleifion sydd â bregusrwydd neu amhariad ar eu symudedd.
- Mae SDEC yn gallu trin, rheoli a rhyddhau'r claf i'w lle byw arferol ar yr un diwrnod.
- Ni all y gwasanaethau iechyd sylfaenol neu gymunedol ddiwallu anghenion y claf.

Dyma'r cleifion na ddylid eu trin mewn gwasanaeth SDEC:

- Cleifion allanol.
- Cleifion mewnlol.
- Cleifion sydd angen cyfleusterau ystafell ryddhau.
- Cleifion sy'n aros i gael eu derbyn i wely ysbyty.
- Cleifion sy'n glinigol ansefydlog.
- Cleifion sy'n gorlifo o wasanaeth arall sydd heb y capasiti i reoli ei ofal ei hun.

Efallai y bydd rhai cleifion a bennwyd ar y cychwyn yn gleifion addas ar gyfer SDEC, yn gorfod cael eu derbyn i'r ysbyty yn dilyn ymchwiliad ac adolygiad gan y tîm SDEC. Ni ddylid ystyried hyn yn fethiant. Dylid ystyried mai dyma'r ffordd gywir o weithredu i'r claf yn dilyn adolygiad. Dylid monitro ac adolygu cyfradd drosglwyddo gyffredinol y bobl sy'n gleifion SDEC a drosglwyddir yn gleifion a dderbynnir i'r ysbyty; ar hyn o bryd mae GIG Lloegr yn awgrymu mai'r gyfradd sydd ganddyn nhw yw 20-30%. Bydd hyn yn cael ei adolygu wrth i'r Byrddau Iechyd weithredu'r gyfres ddata WECDS.

Dylai byrddau iechyd/ymddiriedolaethau hefyd fonitro ac adolygu'r nifer o gleifion sy'n mynd i adran argyfwng neu uned clinigol aciwt ac yna'n aros i mewn am 1 neu 2 ddiwrnod, er mwyn darganfod y cyfleoedd a gollwyd i atgyfeirio i'r gwasanaeth SDEC.

## **Ffrydio cleifion yn effeithiol**

Bydd atgyfeiriadau priodol ac uniongyrchol i SDEC yn helpu i osgoi asesiadau niferus ac asesiadau wedi eu dyblygu cyn i'r claf gyrraedd SDEC. Dylid adnabod cleifion fel rhai addas ar gyfer ffrydio i SDEC mor fuan yn eu taith ag y bo modd.

## **Adnodd mesur**

Datblygodd GIG Lloegr yr adnodd mesur a ganlyn gyda'r Gymdeithas Meddygaeth Acíwt (SAM), Coleg Brenhinol y Meddygon (RCP) a Rhaglen 'Getting it Right First Time' (GIRFT) GIG Lloegr. Mae'r canlynol wedi eu cysylltu â Safonau Data SDEC GIG Cymru a gall y rhain hefyd gael eu rhoi ar waith ledled Cymru:

- Dylid cadw'r amser a dreulir yn yr Adran Argyfwng neu'r Canolfannau Gofal Brys (UCC) cyn trosglwyddo i gyfleuster SDEC mor fyr ag y bo modd. Dylid trosglwyddo'r claf o fewn 60 munud wedi iddo gyrraedd yr Adran Argyfwng neu'r Ganolfan Gofal Brys.
- Ni ddylai unrhyw glaf aros yn y gwasanaeth SDEC yn hirach na 12 awr. Mae'n rhaid i gleifion sydd angen cael eu derbyn gael eu trosglwyddo allan o'r SDEC ar yr un diwrnod ag y maen nhw'n cyrraedd.
- Dylid cadw'r amseroedd aros i gleifion yn SDEC mor fyr ag y bo modd:
  - Mae'n rhaid gwneud yr arsylwadau o fewn 15 munud i gyrhaeddiad y claf.
  - Mae'n rhaid i gleifion gael eu gweld gan glinigydd sydd â'r galluedd i asesu ac ymchwilio symptomau'r claf o fewn 60 munud i'w gyrhaeddiad.
- Dylid creu crynodeb rhyddhau yr un diwrnod ar gyfer un cyfnod o ofal ar ddiwedd y cyfnod SDEC ac yna:
  - a. Ei anfon at y meddyg teulu
  - b. Ei roi i'r claf

Dylai hwn gynnwys manylion yr ymchwiliadau a wnaed, unrhyw therapiau newydd a gychwynwyd a'r cynllun dilynol sy'n ofynnol ac a drefnwyd. Os byddent yn mynychu mwy nag unwaith, yna dylai'r tîm gofal sylfaenol dderbyn cyfathrebiad rheolaidd, a diffinio'r mecanwaith a'r cynnwys yn lleol.

- I bob ymweliad, dylid cyfathrebu cwblhad y cyfnod o SDEC yn glir a dylai rheolaeth gael ei drosglwyddo yn ôl i'r tîm gofal yn y gymuned.
- Rhaid i weithredoedd yn y SDEC gael eu diogelu, yn cynnwys yn ystod cyfnodau o uwchgyfeirio pan mae'r ysbyty o dan bwysau. Mae'n debygol y bydd colli'r gweithredoedd hyn yn cynyddu pwysau.

## Mesurau SDEC

Yn GIG Lloegr, mae'r Gyfres Ddata Gofal mewn Argyfwng (ECDS) yn darparu data am Ofal Brys a Gofal mewn Argyfwng ar lefel y claf. Roedd y data a gasglwyd ar gyfer gweithgaredd SDEC yn GIG Cymru yn cael ei agregu hyd nes i'r WECDS gael ei orfodi a'i roi ar waith i gasglu data ledled Cymru. Bydd y gallu i gymharu data ar lefel genedlaethol yn gyfyngedig hyd nes y bydd WECDS wedi'i weithredu, a bydd hwn wedi'i gyflwyno'n llawn ledled Cymru erbyn diwedd Mawrth 2026. Wrth i wasanaethau SDEC aeddfedu, bydd y mesurau a'r argymhellion yn cael eu hadolygu a'u diweddarau wrth i'r sail dystiolaeth dyfu a chael ei mireinio.

Yn dilyn consensws y byrddau iechyd/ymdiriedolaethau mewn ymarferion Asesiad o Effaith ac ymgysylltiad ag arweinwyr clinigol, gweithredol a digidol, cytunodd a chefnogodd Bwrdd y Rhaglen 6 Nod y diffiniad o SDEC, y safonau interim a'r mesurau y gellid adrodd arnynt hyd nes y rhoddwyd yr WECDS ar waith ledled Cymru. **[Atodiad 1]**

## Profiad o ofal

Mae'n bwysig casglu data amserol a chywir i werthuso profiad y claf o'r SDEC. Byddwn yn gweithio gyda'r Ganolfan Gwerth mewn Iechyd Cymru i ddarparu PROMS/PREMS mewn perthynas â gwasanaethau SDEC ledled Cymru. Mae'r rhain yn helpu gwasanaethau SDEC i fyfyrion ar y gofal a ddarparant o safbwynt y claf a nodi sut y gallant wella'n barhaus.

Datblygodd GIG Lloegr 10 Dangosydd Ansawdd ar gyfer eu gwasanaethau SDEC sydd wedi eu nodi isod ac y gellid eu mabwysiadu ledled Cymru. Bydd y bobl a atgyfeirir i'r SDEC:

1. Yn gwybod beth i'w ddisgwyl gan SDEC cyn iddyn nhw gyrraedd (er enghraifft, cyfeiriadau clir, parcio ceir a chyfleusterau cyffredinol, bwyta ac yfed, beth mae'r gwasanaeth yn ei ddarparu a pham y maent wedi eu hatgyfeirio yno).

2. Yn cael eu cyfarch pan gyrhaeddant er mwyn sicrhau eu bod yn gwybod beth sy'n digwydd ac yn deall beth yw SDEC.
3. Yn teimlo bod y staff yn gofalu amdanynt a'n bod ni'n gofyn beth sydd bwysicaf iddyn nhw – gan wneud hyn yn flaenoriaeth yn eu gofal.
4. Yn cael y cyfle i ofyn unrhyw gwestiynau sydd ganddynt ac yn derbyn diweddariadau rheolaidd.
5. Yn gwybod beth yw enw a rôl y person sy'n darparu'r cymorth ac yn teimlo'n dawel eu meddyliau eu bod yn cael eu gweld gan y person cywir ar yr adeg gywir.
6. Bydd y staff sy'n edrych ar eu holau'n cael eu cefnogi i gynnig y gofal gorau y gallant. Rydym yn gofyn i'n staff beth sydd fwyaf pwysig iddyn nhw – ac yn eu cynnwys nhw'n uniongyrchol mewn dylunio a darparu gwasanaethau.
7. Byddant yn gwybod beth i'w wneud pan fyddan nhw'n gadael y gwasanaeth a gyda phwy i gysylltu os oes ganddyn nhw unrhyw gwestiynau neu bryderon.
8. Byddant yn cael eu gweld yn y lle cywir gan y person cywir. Mae timau SDEC yn cysylltu â gwasanaethau lleol a llwybrau cyfeirio eraill ac yn rhoi gwybodaeth iddynt, er mwyn cefnogi atgyfeiriadau priodol i SDEC.
9. Byddant yn derbyn adborth gan staff a phobl sy'n defnyddio SDEC a bydd yr adborth yn cael ei groesawu, ei annog, ei werthfawrogi a'i gasglu.
10. Byddant yn derbyn adborth a syniadau gan staff a phobl sy'n defnyddio SDEC a defnyddir y rhain i gyd-gynhyrchu gwelliannau i wasanaethau ac ansawdd.

## 5. Cyfres Ddata Gofal mewn Argyfwng Cymru (WECDS)

### Beth yw WECDS?

Mae Cyfres Ddata Gofal mewn Argyfwng Cymru (WECDS) yn gyfres ddata newydd sydd i gael ei defnyddio ledled Cymru i gasglu data yn ymwneud â Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng. Mae WECDS wedi ei addasu o fersiwn 4 y Gyfres Ddata Gofal mewn Argyfwng (ECDS) a gafodd ei gweithredu'n gyntaf ledled Ymddiriedolaethau Lloegr yn 2017. Mae WECDS yn alluogwr allweddol i ddarparu strategaeth y Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng ac mae'n cael ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru a chyrff proffesiynol eraill megis y Coleg Brenhinol Meddygaeth Argyfwng (RCEM). Cafodd WECDS ei

fanfadu drwy DSCN ym mis Mai 2024, ac mae'n mynd i ddisodli'r Gyfres Data Adran Argyfwng (EDDS) gyfredol. Bydd cyfnod cyntaf gweithrediad WECDS yn canolbwyntio ar Adrannau Brys, Unedau Mân Anafiadau a Gofal mewn Argyfwng ar yr Un Diwrnod yn unol â Nod 4 y polisi 6 Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng. Mae cyfnodau pellach wedi eu cynllunio i ddatblygu a gweithredu WECDS ymhellach er mwyn cofnodi data gan GIG 111 Cymru, y Gwasanaeth Ambiwlans a Gofal Brys.

## **Beth fydd WECDS yn ei wneud?**

Bydd WECDS yn hwyluso casgliad data mwy manwl a chywir am Ofal Brys a Gofal mewn Argyfwng a bydd yn gwella ein dealltwriaeth o'r cymhlethdod sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng. Bydd yn ein helpu i gael dealltwriaeth well o daith y claf drwy'r gwasanaethau Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng. Bydd y data y bydd yn ei ddarparu'n helpu i ddangos y llif cleifion a rhwystrau i ymadawiad a bydd yn tanategu mentrau gweithredol i wella Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng a gwasanaethau eraill. Bydd yn helpu i dynnu sylw at y pethau a allai fod yn achosi'r cynnydd mewn galw, yn cefnogi anafiadau, ymosodiadau a goruchwyliaeth iechyd cyhoeddus, a fydd yn ei dro yn arwain at ymyriadau gwasanaethau wedi eu targedu a allai helpu i ostwng y nifer sy'n mynychu gofal argyfwng ac yn gwella canlyniadau cleifion. Mae WECDS yn allweddol o ran galluogi cysylltiad data ar draws y gwasanaethau gofal iechyd a gofal cymdeithasol gan roi golwg fwy eglur ar y ffordd y mae cleifion yn mynd i mewn i'r gwasanaethau Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng, beth sy'n digwydd iddyn nhw pan maen nhw'n mynd i mewn i'r gwasanaethau hyn a'u taith yn eu blaenau.

Bydd WECDS hefyd yn darparu cyfle i gymharu data Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng ar draws ffiniau gyda gweddill y DU, gan hyrwyddo mwy o gysondeb mewn adrodd ar draws y rhanbarthau.

## **Dyddiadau Darparu WECDS:**

Dyma amserlen Cynllun Gweithredu WECDS:

- **1af Ebrill 2025** – Safleoedd Vanguard – Adrannau Argyfwng, Unedau Mân Anafiadau a Gofal Mewn Argyfwng ar yr Un Diwrnod.
- **1af Ebrill 2026** – Pob Bwrdd Iechyd sy'n weddill – Adrannau Argyfwng, Unedau Mân Anafiadau a Gofal mewn Argyfwng ar yr un Diwrnod.

Bydd y Safon Data'n cael ei adolygu yn dilyn y dyddiadau hyn er mwyn sicrhau bod y Safon yn addas i'w bwrpas a bod y data'n cael ei gofnodi a'i gasglu'n briodol ac yn parhau'n berthnasol ac effeithlon.

Nid yw WECDS yn gyfres ddata statig a dylai barhau i esblygu. Felly, bydd angen i'r DSCN gael adolygiadau a diweddariadau rheolaidd i sicrhau ei fod yn alinio ag esblygiad cwmpas darpariaeth y gwasanaeth Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng sy'n ehangu ledled Cymru.

## **Strategaeth "UNDIWRNOD" WECDS a SDEC**

Mae WECDS yn chwarae rôl hanfodol o ran cefnogi strategaeth "UNDIWRNOD" SDEC drwy alluogi casglu data safonol, gwella rheolaeth cleifion drwy gasglu data a gwella effeithioldeb gweithredol drwy leoliadau gofal mewn argyfwng yng Nghymru.

### **6. Yr Isadeiledd Ystadau Cywir**

Mae ystad, cyfleusterau ac offer SDEC a ddylai fod ar gael i ddarparu gwasanaethau SDEC yn amrywio ar draws yr holl leoliadau gofal iechyd yng Nghymru.

Yn ddelfrydol, dylai gwasanaethau SDEC gael eu lleoli'n agos at yr Adran Argyfwng neu'r Uned Clinigol Acíwt er mwyn caniatáu trosglwyddo cleifion addas yn gyflym o'r gwasanaethau hyn i SDEC, ond gyda'u mynedfa allanol eu hunain ar gyfer atgyfeiriad uniongyrchol. Pan fydd gan SDEC fynedfa allanol mae'n gostwng y nifer sy'n cerdded drwy'r Adran Argyfwng ac mae'n ei wneud yn haws i gleifion adael yr ysbyty pan maen nhw'n cael eu rhyddhau.

Mae Nodyn Adeiladu Iechyd Cymru 15-02 (2021) yn rhoi arweiniad am gynllunio a dylunio adran SDEC.



WHBN-15-02-Faciliti  
es-for-same-day-eme

Dyma'r argymhellion craidd:


- Lle bo'n bosibl, dylai'r cyfleuster SDEC fod yn agos i Adran Argyfwng math 1.
- Dylai cleifion gael mynediad at ddiagnosteg o fewn yr un ffrâm amser

â chleifion argyfwng eraill fel y mae lefel brys ac argaeledd yn ei ganiatáu.

- Dylai'r cyfleuster SDEC gael cyfuniad o ystafelloedd ymgynghori, troliâu cleifion a chadeiriau ar gyfer asesu a thrin cleifion.
- Ni ddylid darparu gwelyau mewn uned SDEC oherwydd gallai gael effaith negyddol ar y llif cleifion.

Bydd uned SDEC sydd wedi ei llunio'n dda yn lleihau oedi i gleifion wrth iddyn nhw symud drwy'r camau o ofal. Mae llif cleifion da drwy SDEC yn ganolog i brofiad cleifion, i ddiogelwch clinigol ac er mwyn gostwng pwysau ar staff ac ar y system.

### Enghraifft o Fodel Llif Cleifion SDEC



### 7. Meithrin cyfathrebu effeithiol

Mae cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol yn ganolog i ddarpariaeth unrhyw weithgaredd, gan sicrhau bod rhanddeiliaid cyfrifol yn ymwybodol o'r mater, yr amgylchedd y maent ynddo, eu cyfrifoldeb yn rhan o'r gadwyn ddarparu a'r offer a'r cymorth sydd ar gael i'w cynorthwyo nhw.

Felly, bydd sicrhau estyniad ac effaith unrhyw gyfathrebu, a datblygu strwythurau ac agweddau i gefnogi hyn, yn gwella gweithrediad amcanion a

gweithgareddau craidd.


### **Pam mae cyfathrebu effeithiol yn bwysig yn y gweithle?**

Mae cyfathrebu'n sgil hanfodol yn unrhyw faes, ond yn enwedig yn y meysydd sy'n cynnwys rhyngweithio â chynulleidfaoedd amrywiol, gan greu a darparu negeseuon, a chydweithio ag eraill. I adeiladu cysylltiadau â phobl broffesiynol ym maes cyfathrebu, mae angen i chi fod yn rhagweithiol, strategol a diffuant.

Mae gwella cyfathrebu'n golygu bod yn rhagweithiol. Mae hyn yn cynnwys rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i gleifion a'r gymuned yn rheolaidd am newidiadau i'r gwasanaeth, argaeledd, a chanllawiau. Mae camau syml fel arwyddion clir, gwefannau llawn gwybodaeth, a diweddariadau rheolaidd yn y cyfryngau cymdeithasol yn gallu pontio bylchau sylweddol.

Dylai hyfforddiant mewn sgiliau cyfathrebu fod yn integrol i ddatblygiad pob gweithiwr proffesiynol ym maes gofal iechyd. Gall empathi, gwranddo astud ac iaith glir drawsnewid rhyngweithio clinigol yn un therapiwtig. Mewn senarios pwysau uchel, mae'r sgiliau hyn yn fwy hanfodol byth. Maen nhw nid yn unig yn gwella profiad cleifion, maen nhw hefyd yn gwella ansawdd gofal.

Gall cyfathrebu go iawn fod o fudd i Fyrddau Iechyd/Ymddiriedolaethau mewn nifer o ffyrdd - mae cyfathrebiad tîm effeithiol yn effeithio'n gadarnhaol ar weithwyr cyflogedig yn nhermau:



### **8. Optimeiddio diwylliant o arweiniad gweladwy**

Dylid hyrwyddo SDEC drwy arweiniad clinigol a gweithredol cryf ar lefel

sefydliadol i roi safbwyntiau newydd i'r timau i gyd ar arweiniad dewr a fydd yn siapio ymddygiadau ac yn gwella ansawdd y gofal i gleifion a'u profiad ohono. Mae angen i glinigwyr, rheolwyr gweithredol ac arweinwyr system ddeall y buddion a ddaw gyda SDEC i gapasiti a llif ysbytai, cleifion a'u gofalwyr.

Mae'n rhaid i fodel SDEC llwyddiannus gael perthnasoedd da rhwng yr holl arbenigeddau, yn cynnwys meddygaeth mewn argyfwng yn ogystal â gofal sylfaen, gofal cymunedol a darparwyr ambiwlans, diagnosteg a thimau gwasanaethau arbenigol.

Mae dethol cleifion yn briodol a mynediad at dîm amlddisgyblaethol o glinigwyr a diagnosteg yn allweddol.

Byddai cael noddwr sy'n gyfarwyddwr gweithredol ac anweithredol ac arweinydd clinigol ar gyfer y gwasanaeth SDEC yn hyrwyddo datblygiad y gwasanaeth, gan sicrhau bod y model hwn yn rhan o ddarpariaeth y gwasanaeth craidd. Dylai'r arweinydd clinigol gael amser ymroddedig ar gyfer datblygiad parhaus y gwasanaeth SDEC, gan weithio gyda chydweithwyr gweithredol.

AaGIC yw'r corff arweiniol cenedlaethol i GIG Cymru. Maen nhw'n gyfrifol am osod cyfeiriad yr arweiniad ar draws pob lefel a rheoli cynllunio dilyniant ar gyfer y rolau arwain uchaf yn GIG Cymru.

## **Arweinyddiaeth Dosturiol**

*Beth yw arweinyddiaeth dosturiol?*

Mae arweinyddiaeth dosturiol yn gofyn fod pobl yn gwrando, deall, cydymdeimlo a chefnogi eraill. Mae hyn yn galluogi i bawb deimlo wedi eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu cynnwys a'u hannog, fel eu bod yn gallu cyrraedd eu llawn botensial a gwneud eu gorau yn y gwaith. Mewn lleoliadau iechyd a gofal gall hyn greu:

- diwylliant ac amgylchedd gweithio cynhwysol a chadarnhaol
- timau brwdfrydig sy'n ymgysylltu
- gwell llesiant staff
- gofal a chanlyniadau o safon uchel i gleifion

'Gwella' yw'r Porth Arweinyddiaeth a reolir gan dîm Arweinyddiaeth a

Dilyniant AaGIC sydd â'r nod o ddarparu system hygrych a greddfoll i ddefnyddwyr sy'n gadael iddyn nhw gael gafael ar amrediad o adnoddau arweinyddiaeth dosturiol yn rhwydd. Mae'r platfform hwn yn hygrych i bawb o fewn iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru waeth beth yw eu safle neu gymhwyster - [Gwella, Porth Arweinyddiaeth AaGIC i Gymru](#).

## **9. Diagnosteg a phrofi**

Dylai cleifion gael mynediad uniongyrchol a chyflym at ddiagnosteg ac ymchwiliad yn ddiodyn dros 7 diwrnod i gefnogi asesiad a thriniaeth cyflym, gan hwyluso rhyddhau ar yr un diwrnod. Er mwyn i hynny ddigwydd, dylai diagnosteg a'r gallu i wneud profion gefnogi adolygiad cynnar gan wneuthurwyr penderfyniadau lefel uwch, asesiad cyflym a thriniaeth sy'n hwyluso rhyddhau ar yr un diwrnod. Felly, dylai cleifion sy'n mynd i SDEC gael mynediad at ddiagnosteg o fewn ffrâm amser tebyg i gleifion Adran Argyfwng Math 1 bob amser.

Dylai darparwyr SDEC hefyd adolygu technolegau arloesol i gefnogi diagnosis cyflym neu fonitro cyflyrau sy'n gallu cyflwyno fel cyflyrau aciwt. Dylid rhoi ystyriaeth i ddatblygu profion ar bwynt gofal er mwyn cefnogi penderfyniadau cyflym a rheoli'r cleifion ar fyrder.

## Y Camau Nesaf – Y Gwasanaeth Bregusrwydd Acíwt (AFS)

Mae pobl sy'n byw gyda bregusrwydd yn llai gwydn o ran gwrthsefyll salwch ac maen nhw mewn mwy o berygl o gael canlyniadau iechyd niweidiol. Mae gwasanaethau SDEC sy'n cynnwys y Gwasanaeth Bregusrwydd Acíwt yn aml yn gallu rheoli pobl hŷn sy'n byw gyda bregusrwydd mewn ffordd sydd wedi'i gynllunio, sy'n bersonol ac sy'n llawer llai trallodus i'r person perthnasol.

Mae'n bwysig cydnabod y bydd ar lawer o gleifion angen gofal cymunedol a gofal ysbyty hefyd. Un o ganlyniadau COVID-19 yw ei fod wedi cyflymu'r brys i wasanaethau lleol weithio tuag at ddatblygu llwybrau cleifion i hwyluso mynediad uniongyrchol meddygon teulu, a pharafeddygon at dimau wedi eu seilio yn yr Ysbyty, yn cynnwys SDEC a Gwasanaethau Bregusrwydd Acíwt.

Mewn llawer o ardaloedd yn y wlad mae cyfran fawr o bobl dros 65 oed yn mynd i adrannau argyfwng ac maen nhw'n fwy tebygol o gyflwyno gyda bregusrwydd; mae hyn yn gofyn adnabod cyflyrau'n gynnar ac atgyfeirio'r claf i'r lle cywir i gael triniaeth, o fewn yr amser cywir. Mae adnabyddiaeth hwyr neu wael o fregusrwydd neu ei syndromau cysylltiedig yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd y claf yn cael ei dderbyn i'r ysbyty, yn gorfod aros yn hirach yn yr ysbyty ac, yn gyffredinol, yn cael canlyniadau iechyd gwael yn y tymor hir.

### Beth yw Gwasanaeth Bregusrwydd Acíwt?

Dyma'r diffiniad:

"Mae gwasanaeth bregusrwydd aciwt yn nodi ac yn graddio bregusrwydd yn rheolaidd ac yn systematig mewn pobl sy'n cyflwyno'n aciwt mewn gwasanaethau Gofal Brys neu Ofal mewn Argyfwng yn y gymuned neu'r ysbyty.

Yna mae'r gwasanaethau hyn yn ystyried anghenion personol unigolion sy'n byw gyda bregusrwydd, yn ystyried eu graddfa o fregusrwydd ac o salwch, wedi eu cefnogi gan lwybrau clir a dibynadwy i mewn ac allan o'r ysbyty, wedi eu halinio a'r raddfa o fregusrwydd a nodwyd."

## Beth yw Gwasanaeth Bregusrwydd Acíwt mewn ysbyty?

Egwyddor

“Mae gwasanaeth bregusrwydd aciwt yn ddull integredig sy’n cynnwys y mwyafrif o’r staff sy’n gweithio mewn adran argyfwng, SDEC a gwasanaethau gofal brys. Nid uned ydyw yn syml, ac nid tîm yn unig. Yn dibynnu ar yr adnodd a’r cyd-destun lleol, bydd y ffordd y mae’r Gwasanaeth Bregusrwydd Acíwt yn cael ei redeg yn amrywio ond mae ei egwyddorion a’i ddiben hanfodol yn gyson.”

### Y dyraniad staffio gyfer Gwasanaethau Bregusrwydd Acíwt

Dylid darparu staffio priodol i weithredu Gwasanaeth Bregusrwydd Acíwt ar sail gynaliadwy am o leiaf 12 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos.

Rydym yn cydnabod y pwysau niferus ar weithlu cyfyngedig, yn cynnwys y pwysau o gyflwyno gwasanaethau newydd fel ward rhithwir, ysbyty yn y cartref ac ymateb cymunedol brys. Fodd bynnag, mae’n rhaid i ddarparwyr edrych ar weithio ar draws ffiniau i gynyddu eu gweithlu i ateb y galw cyfredol a galw’r dyfodol.

### Rolau a awgrymir sy’n angenrheidiol i ddarparu model Bregusrwydd wrth y Drws Blaen

- Meddyg ymgynghorol sydd ag Arbenigedd mewn Bregusrwydd/ Geriatregydd Ymgynghorol
- Ymgynghorwyr Nyrsio / Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd
- Ymarferwyr Clinigol Uwch gydag Arbenigedd mewn Bregusrwydd
- Staff Meddygol (a allai gynnwys meddygon teulu gyda rolau estynedig (GPwER) a Chymdeithion Meddygol)
- Staff nyrsio (cofrestrdig ac heb gofrestru) i asesu, darparu gofal uniongyrchol, darparu triniaeth a rhyddhau cleifion
- Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd, e.e. (ond heb eu cyfyngu i) ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol, deietegwyr
- Fferyllwyr a thechnegwyr fferyllfeydd
- Staff gweinyddol a chlerigol
- Dadansoddwr Busnes TG
- Rheolwyr gwasanaeth a Staff gweithredol.

Bydd mynediad at staff eraill fel porthorion a radiograffwyr yn bwysig hefyd, a dylid sefydlu cysylltiadau gyda staff gofal cymdeithasol i hwyluso cymorth ychwanegol i gleifion sy'n cael eu rhyddhau i fynd adref fel y bo'r gofyn.


## **Darpariaeth Gwasanaeth Bregusrwydd Acíwt**

Mae gwasanaethau SDEC sy'n cynnwys Gwasanaeth Bregusrwydd Acíwt yn gallu rheoli pobl hŷn fregus mewn ffordd sydd wedi'i gynllunio, sy'n bersonol ac sy'n llawer llai trallodus i'r person perthnasol.

Bydd timau bregusrwydd acíwt yn darparu gofal argyfwng ar yr un diwrnod i bobl sy'n cyflwyno mewn Adran Argyfwng fel opsiwn amgen yn lle derbyniad i'r ysbyty. Mae hyn yn cynnwys asesiad o fregusrwydd clinigol a mynediad cyflym i Asesiad Geriatrig Cynhwysfawr (os yw'n ofynnol), wedi ei gysylltu â thriniaeth a gwasanaethau ailalluogi.

Argymhellir bod:

- Gwasanaeth Bregusrwydd Acíwt yn cael ei sefydlu wrth y drws blaen ymhob bwrdd iechyd prifysgol i gefnogi'r adran argyfwng, SDEC ac unedau acíwt, gydag Uned Bregusrwydd Acíwt yn darparu arhosiad o hyd at 72 awr i gleifion sydd angen mwy na gofal yr un diwrnod.
- Rhaid i bob Gwasanaeth Bregusrwydd Acíwt allu cael mynediad at seilwaith cymunedol sy'n galluogi trosglwyddo gofal yn ôl i gartref y claf gan sicrhau ymateb system gyfan.



- Bydd Gwasanaeth Bregusrwydd Acíwt yn darparu gwasanaeth 7 diwrnod yr wythnos, 12 awr y dydd (84 awr yr wythnos) wrth y drws blaen
- Mae holl staff 'drws blaen' y Byrddau Iechyd yn cael eu hyfforddi i ddefnyddio'r Sgôr Bregusrwydd Clinigol ar gyfer pobl 65+ oed, 4AT – erfyn sgorio deliriwm a NEWS2 gyda sgorau wedi eu cwblhau ymhob claf sy'n 65+ oed o fewn 60 munud i gyrraedd yr uned.
- Dylai cleifion gyda bregusrwydd cymedrol i ddifrifol y teimlir bod angen iddyn nhw aros i mewn am >72 awr fel claf mewnol gael eu ffrydio'n gyflym naill ai i ward cleifion mewnol pobl hŷn ar gyfer cael ymyriad meddygol parhaus ochr yn ochr ag asesiad geriatrig cynhwysfawr, neu gael mynediad at dimau bregusrwydd arbenigol sy'n gallu darparu asesiad geriatrig cynhwysfawr mewn lleoliadau ward acíwt eraill (fel gwasanaethau cyswllt llawfeddygol)
- Dylai pob ardal acíwt (Adran Argyfwng, SDEC ac Unedau Clinigol Acíwt) sy'n derbyn cleifion hŷn bregus sicrhau bod staff yn rhagweithiol o ran osgoi datgyflyru, gyda ffocws arbennig ar gynnal ymataliad a chefnogi cleifion i gadw eu hannibyniaeth yn ystod eu harhosiad
- Yr holl fyrddau iechyd i ddarparu hyfforddiant lleol i staff ar gael mynediad i lwybrau clinigol a chymdeithasol mewn lleoliadau cymunedol ac ysbyty.

Bydd hyn yn caniatáu i gleifion gael eu ffrydio'n hawdd i'r manau cywir y tro cyntaf.

## **SDEC Arbenigol**

Er y bydd y goblygiadau i ddarparu SDEC yn debyg ar draws y mwyafrif o wasanaethau SDEC meddygol a llawfeddygol, bydd angen i rai elfennau penodol i arbenigedd gael eu hystyried.

# ATODIAD 1

## 1. Safonau SDEC Interim

Maes	Diffiniad
<b>Safon 2</b>	Mae'n rhaid i gleifion sydd angen cael eu derbyn i'r ysbyty gael eu trosglwyddo allan o SDEC ar yr un diwrnod ag y cyrhaeddant.
<b>Safon 4a</b>	Dylid creu crynodeb rhyddhau ar yr un diwrnod ar gyfer un cyfnod o ofal ar ddiwedd y cyfnod yn SDEC a'i: a) Anfon at y Meddyg Teulu

## 2. Mesurau Cyfanredol SDEC Interim

ID y Mesur	Disgrifiad o'r Mesur	Y Mesur i'w Gofnodi
<b>1</b>	Gweithgarwch a pherfformiad o fewn yr uned SDEC:	1 a. Nifer y mynychladau gan gleifion wedi eu cyfrif fel gweithgarwch SDEC
<b>2</b>	Gweithgaredd cyn cyflwyno yn yr Uned SDEC:	2 a. Cyfanswm y nifer o gleifion SDEC a gyflwynodd yn y system Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng cyn cyrraedd yr SDEC. 2 b. Hyd canolrifol yr arhosiad (oriau a munudau) i gleifion a gyflwynodd yn y system Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng cyn cyrraedd yr SDEC.
<b>3</b>	Nifer y mynychladau â SDEC a gafodd eu rhyddhau/a adawodd yr ysbyty ar yr un diwrnod:	3 a1. Cyfanswm y nifer o gleifion a adawodd ar yr un diwrnod o SDEC (a atgyfeiriwyd o'r Adran Argyfwng/Uned Gofal mewn Argyfwng) 3 a2. Cyfanswm y nifer o gleifion a adawodd ar yr un diwrnod o SDEC (a atgyfeiriwyd yn uniongyrchol i'r uned SDEC) 3 b1. Amser canolrifol o gyrraedd adran argyfwng yr ysbyty/ uned gofal mewn argyfwng i'r amser y cânt eu rhyddhau o'r ysbyty (oriau a munudau e.e. 05:00). 3 b2. Amser canolrifol o gyrraedd yr uned SDEC i'r amser y cânt eu rhyddhau o'r ysbyty (oriau a munudau e.e. 05:00).
<b>4</b>	Nifer y mynychladau â SDEC a gafodd eu derbyn i'r ysbyty:	4 a1. Cyfanswm y nifer o gleifion SDEC a dderbyniwyd i'r ysbyty o SDEC (a gafodd eu hatgyfeirio i ddechrau o'r Adran Argyfwng/Uned Gofal mewn Argyfwng) 4 a2. Cyfanswm y nifer o gleifion SDEC a dderbyniwyd i'r ysbyty o SDEC (a gafodd eu hatgyfeirio'n uniongyrchol i'r uned SDEC) 4 b1. Amser canolrifol o gyrraedd adran argyfwng yr ysbyty/ uned gofal mewn argyfwng (atgyfeiriwyd i'r SDEC) i'r amser y cânt eu derbyn fel claf mewnol (oriau a munudau e.e. 05:00) 4 b2. Amser canolrifol o gyrraedd yr adran SDEC (atgyfeiriwyd yn uniongyrchol i'r SDEC) i'r amser y cânt eu derbyn fel claf mewnol (oriau a munudau e.e. 05:00)

### 3. Safonau SDEC Arfaethedig

Maes	Diffiniad
<b>Safon 1</b>	Dylid cadw'r amser a dreulir yn yr Adran Argyfwng cyn trosglwyddo i gyfleuster SDEC mor fyr ag y bo modd. Dylai'r claf gael ei drosglwyddo o fewn 60 munud i gyrhaeddiad y claf yn yr Adran Argyfwng.
<b>Safon 2</b>	Mae'n rhaid i gleifion sydd angen derbyniad gael eu trosglwyddo allan o SDEC ar yr un diwrnod ag yr oedden nhw wedi cyrraedd.
<b>Safon 3a</b>	Dylid cadw'r amser aros yn yr ADEC cyn fyrred ag y bo modd: a. Rhaid cael arsylwadau o fewn 15 munud i gyrraedd.
<b>Safon 3b</b>	Dylid cadw'r amser aros yn yr ADEC cyn fyrred ag y bo modd: b. Rhaid i gleifion gael eu gweld gan glinigydd sydd â'r galluoedd i asesu ac ymchwilio symptomau'r claf o fewn 60 munud i gyrraedd.
<b>Safon 4a</b>	Dylid creu crynodeb rhyddhau ar yr un diwrnod am un cyfnod o ofal ar ddiwedd y cyfnod SDEC a'i: a) Anfon at y meddyg teulu
<b>Safon 4b</b>	Dylid creu crynodeb rhyddhau ar yr un diwrnod am un cyfnod o ofal ar ddiwedd y cyfnod SDEC a'i: b. Roi i'r Claf

### 4. Metrigau a argymhellir gan SDEC ar ôl Gweithrediad WECDS

#### a) Ar gael ar hyn o bryd

ID y Mesur	Metrig	Ar gael
1.	Adolygiad o weithgarwch a pherfformiad yn yr SDEC: a. Nifer y mynychuadau gan gleifion wedi eu cyfrif fel gweithgarwch SDEC	
2.	Adolygiad o weithgarwch cyn cyflwyno yn yr SDEC: a. Cyfanswm y nifer o gleifion SDEC a gyflwynodd yn y system Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng cyn cyrraedd yr SDEC.	

	b. Hyd canolrifol yr arhosiad (oriau a munudau) i gleifion a gyflwynodd yn y system Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng cyn cyrraedd yr SDEC.	
3.	Nifer y mynychuadau â SDEC a gafodd eu rhyddhau/a adawodd yr ysbyty ar yr un diwrnod:	
	a. Cyfanswm y nifer o gleifion a adawodd ar yr un diwrnod o SDEC (a atgyfeiriwyd o'r Adran Argyfwng/Uned Gofal mewn Argyfwng)	
	b. Cyfanswm y nifer o gleifion a adawodd ar yr un diwrnod o SDEC (a atgyfeiriwyd yn uniongyrchol i'r uned SDEC)	
	b1. Amser canolrifol o gyrraedd adran argyfwng yr ysbyty/uned gofal mewn argyfwng i'r amser y cânt eu rhyddhau o'r ysbyty (oriau a munudau e.e. 05:00).	
	b2. Amser canolrifol o gyrraedd yr uned SDEC i'r amser y cânt eu rhyddhau o'r ysbyty (oriau a munudau e.e. 05:00).	
4.	Nifer y mynychuadau â SDEC a gafodd eu derbyn i'r ysbyty:	
	a1. Cyfanswm y nifer o gleifion SDEC a dderbyniwyd i'r ysbyty o SDEC (a gafodd eu hatgyfeirio i ddechrau o'r Adran Argyfwng/Uned Gofal mewn Argyfwng)	
	a2. Cyfanswm y nifer o gleifion SDEC a dderbyniwyd i'r ysbyty o SDEC (a gafodd eu hatgyfeirio'n uniongyrchol i'r uned SDEC)	
	b1. Amser canolrifol o gyrraedd adran argyfwng yr ysbyty/uned gofal mewn argyfwng (atgyfeiriwyd i'r SDEC) i'r amser y cânt eu derbyn fel claf mewnol (oriau a munudau e.e. 05:00)	
	b2. Amser canolrifol o gyrraedd yr adran SDEC (atgyfeiriwyd yn uniongyrchol i'r SDEC) i'r amser y cânt eu derbyn fel claf mewnol (oriau a munudau e.e. 05:00)	

## b) Ar gael yn Dilyn gweithrediad WECDS

ID y Mesur	Metrig	Ar gael
5.	Nifer y mynychuadau â SDEC wedi eu rhannu fesul ffynhonnell atgyfeirio a'u halinio ag eitem data'r Ffynhonnell Mynychu Gofal Argyfwng o fewn WECDS.	
6.	Nifer y canlyniadau rhyddhau o SDEC fel y maent wedi eu halinio â'r eitemau data o fewn WECDS: <ul style="list-style-type: none"> <li>•Statws Rhyddhau</li> <li>•Cyrchnod Rhyddhau</li> <li>•Dilyn y Rhyddhau</li> </ul>	
7.	Nifer yr ailgyflwyniadau cleifion heb eu cynllunio i'r system Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng oedd wedi eu rheoli gan wasanaeth SDEC o fewn y saith diwrnod blaenorol. Wedi eu cofnodi fesul Categori Mynychu Gofal mewn Argyfwng yn WECDS.	
8.	Nifer yr oriau bob dydd y mae'r gwasanaeth SDEC ar gael. <i>Cynhwyswch ddisgrifiad os yw hyn yn gwyro oddi wrth y busnes arferol</i>	
9.	Nifer y diwrnodau bob wythnos y mae'r gwasanaeth SDEC ar gael. <i>Cynhwyswch ddisgrifiad os yw hyn yn gwyro oddi wrth y busnes arferol</i>	
10.	Adolygiad o'r ymchwiliadau SDEC: a. Nifer yr ymchwiliadau cychwynnol a wnaed o fewn y gwasanaeth SDEC wedi eu rhannu yn ôl: <i>Profion Gwaed, Ffilm Blaen, Pelydrau X, Uwchsain, Sganiau CT, MRI</i>	
	b. Yr amser cyfartalog (cymedrig a chanolrifol) o gyrraedd y gwasanaeth SDEC i'r amser y cafodd yr ymchwiliad cychwynnol ei wneud ac y cofnodwyd yr ymchwiliad wedi eu rhannu yn ôl: <i>Profion Gwaed, Ffilm Blaen, Pelydrau X, Uwchsain, Sganiau CT, MRI</i>	
11.	Adolygiad o'r diagnosis SDEC: a. Y deg diagnosis uchaf yn ôl arbenigedd SDEC (Llawfeddygol, Meddygol, Bregusrwydd) i gleifion wedi eu rhyddhau o'r ysbyty.	
	b. Y deg diagnosis uchaf yn ôl arbenigedd SDEC (Llawfeddygol, Meddygol, Bregusrwydd) i gleifion wedi eu derbyn i'r ysbyty.	

## ATODIAD 2

### 1. Erfyn hunanasesu: Darpariaeth gyfredol

Mae'r erfyn hwn yn eich helpu i asesu a yw eich model SDEC yn ateb yr isafswm gofynion a argymhellir.

<b>Erfyn hunanasesu: Y ddarpariaeth gyfredol</b>		
<b>YR ISAFSWM GOFYNIAD AM WASANAETH SDEC</b>	<b>A GAWSON NHW EU CYFLAWNI? DO/NADDO</b>	<b>OS NAD, GWELWCH Y FLAENORIAETH:</b>
1. Mae gwneuthurwr penderfyniadau clinigol uwch wedi'i enwi ar ddyletswydd ac yn bresennol yn SDEC yn ystod yr oriau o weithredu pan mae'r galw ar ei uchaf, a chanddo fynediad at feddyg ymgynghorol priodol i gefnogi gwneud penderfyniadau fel y bo'r gofyn.		1
2. Mae gan wasanaeth SDEC ei weithlu ymroddedig ei hun pan fo'n agored.		
3. Defnyddir templed gweithlu meddygol a nyrsio/gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd ar gyfer gwasanaeth SDEC.		
4. Mae mynediad at wasanaeth fferylliaeth ar gyfer cael cyngor am feddyginiaeth cleifion, dosbarthu, cyflenwi a chwnsela am feddyginiaeth wrth gael eu rhyddhau o'r ysbyty.		
5. Mae'n rhaid i wasanaethau SDEC weithredu am o leiaf o 12 awr y dydd, 5 diwrnod yr wythnos, gyda chynllun ar gyfer 7 diwrnod o waith.		
6. Rhaid i wasanaethau bregusrwydd aciwt weithredu am o leiaf 84 awr yr wythnos ac maen nhw ar gael dros 7 diwrnod.		
7. Ni ddylai SDEC gael gwelyau, er mwyn sicrhau darpariaeth gwasanaeth parhaus.		2
8. Nid yw SDEC wedi'i gynnwys mewn cynlluniau uwchgyfeirio.		
9. Dim ond ar gyfer oriau agor y gwasanaeth y mae'r gwasanaethau SDEC wedi eu staffio.		

10. Nid oes gan SDEC y capasiti ffisegol i gael gwelyau yn ei ôl troed.		
11. Gall atgyfeirwyr drafod atgyfeiriadau gydag aelod o staff clinigol uwch yn yr SDEC sy'n gwneud penderfyniadau er mwyn sicrhau eu bod yn briodol ar gyfer y gwasanaeth.		3
12. Gall gofal sylfaenol atgyfeirio cleifion yn uniongyrchol i SDEC.		
13. Gall clinigwyr ambiwlans atgyfeirio cleifion yn uniongyrchol i SDEC.		
14. Gall cleifion gael eu ffrydio'n uniongyrchol o'r adran argyfwng i SDEC.		
15. Mae'r broses atgyfeirio safonol wedi ei chytuno a'i rhannu gyda phartneriaid gofal iechyd.		
16. Mae proffil o'r gwasanaeth SDEC yn y cyfeiriadur o wasanaethau/safle mewnruyd lleol gyda'r amseroedd agor diweddaraf, proses atgyfeirio a manylion cysylltu.		4
17. Mae gweithgarwch SDEC wedi ei gofnodi fel mynychuadau		
18. Mae'r staff yn defnyddio dull asesu triphlyg i bobl hŷn sy'n byw gyda bregusrwydd: Sgôr Bregusrwydd Clinigol ar gyfer pobl 65+ oed, 4AT- erfyn sgorio deliriwm a NEWS2		
19. Mae gwasanaeth SDEC yn casglu adborth gan gleifion ac yn nodi camau gweithredu i wella profiad cleifion.		5
20. Paratowyd ar gyfer gweithrediad WECDS		
21. Mae SDEC wedi'i alinio â'r diffiniad yn DSCN		6
22. Dylid bod capasiti cadeiriau/ystafell driniaeth ac aros digonol i ateb y galw.		
23. Mae gan yr uned SDEC gyfuniad o ystafelloedd ymgynghori, trolïau a chadeiriau ar gyfer asesu a thrin cleifion.		7
24. Mae'r arwyddion i'r uned SDEC yn glir a dwyieithog.		
25. Ceir cyfarfodydd rheolaidd gydag arweinwyr Clinigol, Gweithredol a Gwybodeg.		8
26. Mae pob arweinydd clinigol SDEC yn cynnal sesiynau gweithgaredd proffesiynol yn eu cynllun gwaith i gefnogi datblygiad yr SDEC (er enghraifft, datblygiad polisiau ac arweiniad, adolygiad o arferion clinigol, archwiliadau).		
27. Mae gan bob gwasanaeth SDEC arweinydd clinigol SDEC sy'n gweithio yn y gwasanaeth.		

28. Nodir cyfarwyddwr gweithredol a chyfarwyddwr anweithredol fel noddwyr ar gyfer gwasanaethau SDEC.		
29. Mae gan y gwasanaethau SDEC yr un mynediad i ddiagnosteg ac adrodd ag sydd gan yr adrannau argyfwng yn lleol.		9

## 2. Erfyn hunanasesiad: Ymdrechu i gyflawni

Mae'r erfyn hwn yn eich helpu i asesu'r potensial i drawsnewid ymhellach a nodi'r hyn y dylech fod yn ymdrechu i'w gyflawni er mwyn gwella eich model gwasanaeth SDEC.

<b>Erfyn hunanasesu: Ymdrechu i gyflawni</b>		
<b>GWASANAETH SDEC SY'N YMDRECHU I GYFLAWNI</b>	<b>A GAWSON NHW EU CYFLANWI? DO/NADDO</b>	<b>OS NAD, GWELWCH Y FLAENORIAETH:</b>
1. Mae cynllun hyfforddi a datblygu'r gweithlu yn ei le ar gyfer pob rôl yn yr SDEC.		1
2. Mae rolau arferion lefel uwch wedi eu hymwreiddio yn y model gwasanaeth (er enghraifft, ymarferwyr clinigol uwch, ymarferwyr nyrsio, arbenigwyr nyrsio clinigol, fferyllwyr clinigol).		
3. Mae presenoldeb Tîm Amlddisgyblaethol llawn wedi ei ymwreiddio yn y model gweithlu.		
4. Mae model staffio SDEC yn cefnogi galw heb ei gynllunio gan ddefnyddio 0 Hyd yr Arhosiad fel mesur procsi ar gyfer pob claf.		
5. Mae'r gwasanaeth SDEC wedi ei gefnogi gan bolisi Uwchgyfeirio Cenedlaethol i beidio rhoi gwelyau yn yr Uned		2
6. Gall gwasanaethau 111 y GIG gyfeirio cleifion yn uniongyrchol i'r SDEC		3
7. Gall gwasanaethau cymunedol (yn cynnwys Canolfannau Gofal Brys), wardiau rhithwir a gwasanaethau Un Pwynt Mynediad gyfeirio cleifion yn uniongyrchol i SDEC.		
8. Mae'r meini prawf atgyfeirio i SDEC wedi eu safoni ar draws ôl troed yr ymddiriedolaeth/bwrdd iechyd.		
9. Ystyrir fod offer digidol yn rhan o'r cynllunio ar gyfer y dyfodol er mwyn sicrhau ei bod yn rhwydd atgyfeirio a rhannu gwybodaeth cleifion.		
10. Ystyrir bod offer cofrestru yn rhan o'r cynllunio ar gyfer y dyfodol i sicrhau ei bod yn hawdd atgyfeirio a rhannu gwybodaeth cleifion.		
11. Gostyngir ffiniau'r gweithlu drwy weithio ar draws holl feysydd yr Ymddiriedolaeth/Bwrdd Iechyd, gan fanteisio i'r eithaf ar y cyfle i weithio ar draws gofal cynradd, cymunedol, iechyd meddwl ac eilaidd.		

12. Mae cynlluniau ar waith ymhob bwrdd iechyd / ymddiriedolaeth i gofnodi'r holl weithgareddau SDEC yn WECDS fel gweithgaredd Math 5 pan fo ar gael.		
13. Mae PROMS a PREMS yn eu lle gan wasanaethau SDEC i geisio adborth gan gleifion ac o hyn maen nhw'n adnabod unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r ddarpariaeth gwasanaethau.		4
14. Mae'r holl weithgaredd SDEC yn cael ei gofnodi drwy WECDS		5
15. Mae buddsoddiad cyfalaf ar gyfer yr ystad SDEC yn ddigonol i wella capasiti wyneb yn wyneb ac ar-lein.		
16. Gwneir modelu galw a chapasiti i sicrhau bod ôl troed SDEC yn addas i'r pwrpas.		6
17. Mae gan uned SDEC ei fynedfa allanol ei hun i gefnogi derbyniadau uniongyrchol i SDEC		
18. Mae dolenni cyfathrebu cadarn yn eu lle ar bob lefel i sicrhau adborth staff cyson i wella'r gwasanaeth		7
19. Mae staff sy'n gweithio yn SDEC yn cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu'r gwasanaeth.		
20. Mae arweinyddiaeth y byrddau iechyd/ymddiriedolaeth yn cefnogi darpariaeth SDEC ar draws ffiniau gofal sylfaenol, cymunedol, iechyd meddwl ac eilaidd.		8
21. Mae gan wasanaethau SDEC yr un mynediad i ddiagnosteg ac adrodd ag sydd gan adran argyfwng yn lleol.		
22. Mae gan wasanaethau SDEC fynediad i Brofion Pwynt Gofal er mwyn hyrwyddo diagnosis prydlon a thriniaeth cleifion.		
23. Mae gan wasanaethau SDEC fynediad i ganolfannau diagnostig cymunedol i ostwng y pwysau ar wasanaethau diagnostig aciwt.		9
24. Mae gwasanaethau SDEC yn gweithio ar draws y gymuned i gefnogi darpariaeth ysbyty yn y cartref.		